Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## ARCH Dental, Abergele
## Dyddiad yr arolygiad: 13 Medi 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN Digidol 978-1-80535-110-8
© Hawlfraint y Goron 2022

Ar y cyfan, gwelsom fod ARCH Dental yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar, gofalgar a phroffesiynol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i sicrhau gofal diogel ac effeithiol ar gyfer anghenion eu cleifion.

Cawsom sicrwydd bod y practis yn darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n hybu iechyd y geg.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn ARCH Dental, Abergele ar 13 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom fod ARCH Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

- Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

- Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau penodol i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff.

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar yn y deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.

- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r deintyddfeydd priodol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth a chostau a lofnodwyd yn cael eu sganio i nodiadau'r cleifion.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Practis hyfryd, staff cyfeillgar, gwych!"*

*"Gofal rhagorol. Mor hapus â'r gwasanaeth a ges i."*

*"Practis gwych, cyfeillgar iawn."*

*"Gwasanaeth a gofal rhagorol"*

*"Lle gwych"*

*"Dim lle i wella, practis a staff hyfryd."*

*"Mae'n rhagorol"*

*"O'r radd flaenaf."*

*"Methu gweld sut y gall wella ei wasanaeth. Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth fel y mae"*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

- Nodwyd gennym fod ARCH Dental yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

- Roedd y practis mewn cyflwr da iawn ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

- Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

- Roedd y tîm clinigol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

### Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y practis wedi'i adnewyddu i safon uchel.

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd da wedi'u cwblhau.

### Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Adolygu'r ffordd y cofnodir dewis iaith y cleifion mewn cofnodion clinigol.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Yn amyneddgar iawn gyda mi gan fy mod i'n glaf pryderus iawn. Llawn gofal"*

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Crynodeb Cyffredinol

- Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn ARCH Dental.

- Perchennog y practis / y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

- Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

- Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

